

Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint 2015 - 2030
ARCHWILIAD CYHOEDDUS

Gwrandawriad Mater 6

Dydd Iau 15 Ebrill 2021

Yr Economi a Chyflogaeth

STR7 Datblygu Economaidd, Menter a Chyflogaeth

STR8 Darparu Tir Cyflogaeth

STR9 Canolfannau a Datblygiadau Manwerthu

STR10 Twristiaeth, Diwylliant a Hamdden

Datganiad Gwrandawriad gan Gyngor Sir y Fflint

Archwiliad Cyhoeddus Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint (2015 - 2030)

Datganiad Cyngor Sir y Fflint: Mater 6: Yr Economi a Chyflogaeth (gan gynnwys STR7 Datblygu Economaidd, Menter a Chyflogaeth; STR8 Darparu Tir Cyflogaeth; STR9 Canolfannau a Datblygiadau Manwerthu; STR10 Twristiaeth, Diwylliant a Hamdden)

Paratowyd y datganiad hwn gan Gyngor Sir y Fflint (CSFf) mewn ymateb i gwestiynau'r Arolygwyr ar gyfer y gwrandawriad:

Mater Allweddol:

A yw'r strategaeth economaidd yn gydlynol ac wedi'i seilio ar broses baratoi gadarn? A fydd yn mynd i'r afael â'r Materion Allweddol a'r Amcanion Strategol yn effeithiol ac yn effeithlon? A yw'r strategaeth a'r polisiau strategol yn realistig ac yn briodol yng ngoleuni opsiynau eraill perthnasol, ac a ydynt yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn a chredadwy?

Ymateb:

1. Mae ymagwedd y Cynllun at dwf economaidd yn ganolog i'w strategaeth twf gyffredinol, fel y nodir mewn ymateb i Fater 3. Mae'r strategaeth economaidd yn cydnabod rôl a safle ffisegol a swyddogaethol Sir y Fflint fel porth rhwng Cymru a Lloegr, yn ogystal ag is-hwb economaidd is-ranbarthol, lle bo'r ffin genedlaethol yn ail ystyriaeth yn nhermau rhwydweithio economaidd. Yn wahanol i ddarpariaeth tai yn y cynllun sydd, mewn cymhariaeth, yn llawer mwy rhagnodedig, wedi'i seilio ar anghenion a'i phennu gan baramedrau rheoladwy, mae rôl bosibl cynllun datblygu wrth hyrwyddo twf economaidd yn llawer llai rhagnodedig. Mae angen i'r cynllun fod yn gadarnhaol, yn uchelgeisiol ac yn hyblyg er mwyn creu'r amodau a fydd yn galluogi buddsoddiad economaidd wedi'i ysgogi gan y farchnad. Mae cyfradd cyflogaeth Sir y Fflint bron yn 80%, sydd yn uwch na Chymru a'r DU, ac yn tystio i ffocws yr ardal ar gyflogaeth a ffyniant.
2. Yn absenoldeb rhagamcanion economaidd cenedlaethol, cyfyngir ar y gallu i ddibynnu ar ffynonellau cydnabyddedig fel Cambridge Econometrics. Mae hyn yn arbennig o wir wrth geisio bod yn gadarnhaol ac uchelgeisiol, lle bo'r fethodoleg yn seiliedig ar sectorau ac yn dibynnu ar dueddiadau o'r gorffennol sy'n adlewyrchu effeithiau parhaol, ac yn dangos dylanwad, y dirwasgiad diwethaf yn 2008. Mae effeithiau hirhoedlog y dirwasgiad wedi parhau am flynyddoedd ac edi dylanwadu ar dueddiadau rhagolygon. Amlygwyd hyn yng nghanlyniad y gwaith cychwynol a gyflawnwyd gan ymgynghorwyr y Cyngor ar yr Adolygiad Tir Cyflogaeth [LDP-EBD-EM1](#). Nid oedd canlyniad yr adolygiad hwnnw, â'i lefelau gwastad iawn o anghenion cyflogaeth yn y dyfodol, yn adlewyrchu'r uchelgais sy'n dod i'r amlwg yn y Cyngor ac ymhlith awdurdodau lleol Gogledd Cymru yn rhan o Weledigaeth Twf Gogledd Cymru, na lefel debyg yr uchelgais yn sgil Cynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy, nac yn olaf y pwyslais clir a roddwyd ar y cyfraniad y dylai economi Sir y Fflint ei wneud at y safle cenedlaethol yng Nghynllun Gofodol Cymru, a'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn ddiweddarach.

3. Dyma pam bod y Cyngor wedi comisiynu'r gwaith pellach ar senarios twf (Asesiad Senarios Twf Cyflogaeth Pellach Sir y Fflint [LDP-EBD-EM2](#)) gan ei ymgynghorwyr economaidd. Yn sgil y gwaith hwn, nodwyd yn gyntaf y potensial eang am swyddi yn y ddau safle strategol a ddyrannwyd yn y cynllun, ac wedyn cynhaliwyd rhagolygon diwygiedig o senarios am lefel twf cyflogaeth fwy uchelgeisiol, ac iddi seiliau mwy cadarn. O gymharu'r ddwy ymagwedd, mae'r targed swyddi yn y Cynllun yn deillio o botensial ei safleoedd strategol i greu swyddi, tra bo senario 3 y rhagolygon yn creu ystod eang iawn o dwf posibl, gan nodi angen o hyd at 50.6ha o dir cyflogaeth neu gynhyrchu 7,200 o swyddi. Nid yw hyn ond 800 yn llai nag ystod isaf y targed swyddi yn y cynllun, neu'n wahaniaeth blynyddol o gyn lleied â -53. Mae cyngor pellach (Cyngor Cyflogaeth a Thai [LDP-EBD-EM3](#)) a ddarparwyd gan ymgynghorwyr y Cyngor yn 2019 i gefnogi'r CDLI Adneuo yn rhesymoli ac yn rhoi esboniad defnyddiol o'r ymagwedd gyffredinol a fabwysiadwyd. Cesglir hefyd fod gan y Cyngor hawl i fabwysiadu ymagwedd agor-i-fusnes i gefnogi ei gyfraniad at adferiad economaidd lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yn dilyn Brexit, a Covid bellach, a'i fod yn gywir i wneud hynny, ac i chwarae'r rhan 'fwy na lleol' a ragwelwyd ar ei gyfer mewn nifer o gynlluniau a strategaethau.
4. Roedd Cynllun Gofodol Cymru sydd bellach wedi dyddio ac ar fin cael ei ddisodli gan Gynllun Cymru'r Dyfodol, yn rhoi cydnabyddiaeth glir o bwysigrwydd Sir y Fflint yng nghyd-destun Gogledd Cymru a hefyd ar draws y ffin, gan ddiffinio 'triongl twf' rhwng Glannau Dyfrdwy, Wrecsam a Chaer. Dros 10 mlynedd ers fersiwn ddiwethaf Cynllun Gofodol Cymru, mae'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yr ymgynghorwyd arno yn 2019 bellach wedi'i ymgorffori yng Nghynllun Cymru'r Dyfodol sydd ar ddod, ac ar fin cael ei gyhoeddi ar ei ffurf derfynol. Mae ei bolisi cyntaf yn nodi'r prif leoliadau yng Nghymru i barhau a hyrwyddo cyfraniadau tuag at dwf cenedlaethol, ac un o'r tair ardal dan sylw, a'r unig ardal dwf yn y gogledd, yw Wrecsam a Glannau Dyfrdwy. Mae Cymru'r Dyfodol yn disgrifio'r tair ardal a nodir, gan gynnwys Glannau Dyfrdwy fel a ganlyn: " yn wahanol yn economaidd ac maent yn cynnal amrywiaeth o fusnesau, mentrau a phrifysgolion ac yn cynnig ffyrdd o fyw diwylliannol gyfoethog i'w trigolion ac ymwelwyr. Maent yn lleoedd o bwys rhyngwladol a chenedlaethol a nod y strategaeth hon yw eu helpu i barhau i dyfu ac adfywio".
5. Mae hyn nid yn unig yn cydnabod rôl is-ranbarthol 'fwy na lleol' Sir y Fflint, ond hefyd yn gosod disgwyliad arni i barhau â'r rôl honno. Ar y cyd â strategaeth CDLI Wrecsam, mae lefelau cyfunol y swyddi a'r tai yn y naill gynllun a'r llall, y mae eu dyddiadau mabwysiadu'n debygol o fod yn weddol gydamserol, yn creu sail i wynebu'r her a nodwyd yn y cynllun cenedlaethol. Y maent hefyd yn alinio cyfraniad posibl y naill strategaeth a'r llall tuag at ddatblygu Cynllun Datblygu Strategol i Ogledd Cymru, yn rhan o waith y Cydbwyllgorau Corfforaethol newydd a ddaw'n weithredol yn ddiweddarach eleni.
6. Mae'n amlwg bod rhai o amcanion allweddol y Cynllun yn rhoi sylw i'r cyd-destun hwn, gan geisio hyrwyddo twf ac arallgyfeirio'r economi leol, cynyddu sgiliau a chyflogaeth uchel ei gwerth, a chefnogi datblygiad sy'n sefydlu Sir y Fflint fel ardal

economaidd-gystadleuol a sbardun i economi'r is-ranbarth. Mae'r Cynllun yn gwneud darpariaeth ar gyfer portffolio mawr ac amrywiol o safleoedd cyflogaeth i gynorthwyo yn hyn o beth, ac mae'r safleoedd strategol yn cynnig cyfle i gynnwys unedau diwydiannol mawr a mawr iawn, sef y math o safleoedd sy'n fwyfwy prin yng nghoridor economaidd Gogledd-ddwyrain Cymru a Gogledd-orllewin Lloegr.

7. Mae hyn yn cyd-fynd â'r ffocws ar Sir y Fflint a geir ym Margen Twf Gogledd Cymru ([LDP-EBD-EM4](#)), Cynllun Glannau Dyfrdwy ([LPD-EBD-TR3](#)), Prosbectws Ardal Mersi Dyfrdwy ([LDP-EBD-EM5](#)), a pholisi 20 o Gynllun Cymru'r Dyfodol sydd ar ddod sy'n cyfeirio at Lannau Dyfrdwy fel rhan o ardal dwf genedlaethol lle "bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda chyrrff rhanbarthol ac awdurdodau lleol yn y rhanbarth a rhanbarthau cyfagos Lloegr i hyrwyddo a gwella rôl strategol Wrecsam a Glannau Dyfrdwy a **sicrhau bod penderfyniadau buddsoddi allweddol yn cefnogi lleoedd yn yr Ardal Dwf Genedlaethol a'r rhanbarth ehangach**" (pwyslais y Cyngor mewn print bras).
8. Mae strategaeth economaidd a pholisiâu strategol Sir y Fflint yn gysylltiedig â hyrwyddo cyflogaeth a swyddi yn darparu'r "lleoedd" hyn a ragwelir yn y cynlluniau, y strategaethau a'r uchelgeisiau cenedlaethol a rhanbarthol, yn cynnwys mwy na digon o dir er mwyn darparu ar gyfer y twf mewn swyddi a anelir ato, ac yn helpu i greu'r amodau sy'n caniatáu buddsoddiad er mwyn manteisio ar yr adegau pan fydd yr economi'n gryf.

Cwestiwn a)

A nodwyd digon o dir cyflogaeth? A fydd y safleoedd strategol allweddol yn esgor ar y nifer y swyddi a ragwelwyd?

Ymateb y Cyngor:

- a.1 O ystyried y cyd-destun clir o ran polisi a strategaeth ar gyfer twf economaidd cenedlaethol a rhanbarthol clir a nodir yn y cynllun ac uchod, mae'r Cyngor wedi ymrwmo i sicrhau, ac mor sicr ag y gall fod, bod darpariaeth ddigonol wedi'i neilltuo i hyrwyddo'r rôl ddisgwyliedig y mae angen i'r Sir ei chwarae er mwyn galluogi datblygiad cyflogaeth ar raddfa leol a strategol, ac i weithredu fel sbardun economaidd i'r is-ranbarth.
- a.2 Mae gan Sir y Fflint sylfaen economaidd gref, gan gynnwys ystod sylweddol o gyflogwyr sy'n bwysig yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, ac mae'r CDLI wedi nodi safleoedd strategol allweddol sy'n debygol o fod yn lleoliadau ar gyfer buddsoddiadau mewn busnesau newydd a fydd, fel y nodir gan Lywodraeth Cymru ym mholisi 20 yng Nghynllun Cymru'r Dyfodol sydd ar ddod, yn ffocws i benderfyniadau buddsoddi allweddol. Wrth i'r broses gyflymu i ddwyn safle Porth y Gogledd ymlaen a'i baratoi i'w ddatblygu, ceir tystiolaeth glir fod hyrwyddo'r safleoedd allweddol hyn yn y CDLI yn sicrhau'r effaith gadarnhaol a geisiwyd wrth ailgyflwyno'r safleoedd hynny yn y Cynllun yn wreiddiol, ac osgoi'r opsiwn haws i'w rhoi o'r neilltu fel ymrwymadau sy'n mudlogi, a dyrannu gormod o dir maes glas arall yn lle hynny. Yn wahanol i safleoedd Strategol eraill yn yr is-ranbarth ehangach, nid oes cyfyngiadau o bwys ar y safleoedd allweddol yn y CDLI ar y cyfan. Yn ogystal â hyn,

cafwyd buddsoddiad sylweddol ynddynt eisoes (yn enwedig Porth y Gogledd) er mwyn galluogi seilwaith, neu fe'u cefnogir gan ymrwymiad i ddarparu cyllid seilwaith drwy'r Fargen Twf (Neuadd Warren). Maent felly'n safleoedd y mae'n ddichonadwy dechrau datblygu arnynt, a deniadol i'r farchnad.

- a.3 O'r gwaith a gyflawnwyd gan ymgynghorwyr economaidd y Cyngor, mae potensial i'r safleoedd strategol hyrwyddo swyddi ar y raddfa a nodir yn y cynllun, ac mae'n amlwg y bydd y safleoedd hyn yn gwneud cyfraniad sylweddol at dwf swyddi wrth iddynt gael eu datblygu dros gyfnod y cynllun. Er hynny, mae'r cynllun yn dyrannu mwy o dir yn ychwanegol at y safleoedd strategol i gynnig opsiynau datblygu cyflogaeth i gwmnïau lleol neu fuddsoddwyr newydd sy'n chwilio am safleoedd o faint penodol i fuddsoddi ynddynt. Mae un safle o'r fath ym Mharc Penarlâg (PE1.2) yn cynnig cyfleoedd allweddol o safbwynt cadwyn gyflenwi a chyflogaeth o ansawdd uchel yn agos at un o gyflogwyr pwysicaf y Sir, Airbus, mewn lleoliad sy'n elwa ar daliadau cymhelliant a chonsesiynau Ardal Fenter. Mae'r enghraifft hon yn dangos yr hyblygrwydd o fewn y portffolio o dir cyflogaeth a ddarperir yn y Cynllun sydd, er ei fod yn canolbwyntio ar ddarparu safleoedd strategol allweddol, hefyd yn darparu'r ystod o ddewis o gyfleoedd sydd eu hangen i ddenu marchnad amrywiol.
- a.4 Yn amlwg, ni fydd angen lleoliad diwydiannol i hwyluso twf a buddsoddiad ar yr holl sectorau economaidd, ac mae potensial i bolisïau'n gysylltiedig â chanol trefi ac annog y sectorau twristiaeth a hamdden er enghraifft, hyrwyddo buddsoddiad a thwf swyddi posibl y tu allan i'r safleoedd cyflogaeth allweddol. Ar ben hynny, mae'r ymagwedd polisi pellach i ddiogelu lleoliadau cyflogaeth sy'n bodoli eisoes (Prif Ardaloedd Cyflogaeth PE2) yn rhoi'r flaenoriaeth i'r safleoedd hyn fel lleoliadau parhaus ar gyfer cyflogaeth.
- a.5 Mae strategaeth economaidd y Cynllun a'r ffaith bod digon o dir cyflogaeth wedi'i neilltuo yn ddo yn gosod cyfeiriad strategol clir. Serch hynny, yn wahanol i'r safleoedd a ddyrennir ar gyfer tai yn y cynllun, ceir llai o reolaeth a sicrwydd ynghylch datblygu'r economi leol, yr effeithir arni (yn gadarnhaol ac yn negyddol) gan economïau rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol ehangach. Mae grymoedd o'r tu allan sydd y tu hwnt i reolaeth y Cyngor a chyrrff rhanbarthol eraill felly'n effeithio ar allu'r economi, ac felly'r Cynllun, i gyrraedd ei dargedau uchelgeisiol. Yr hyn sy'n glir yw bod y Cyngor o'r farn ei fod wedi neilltuo darpariaeth ddigonol a phriodol o dir cyflogaeth drwy'r safleoedd strategol a pholisïau eraill ar gyflogaeth yn y cynllun, sy'n cynnig digon o ddewis a hyblygrwydd i fodloni'r gofynion cenedlaethol a rhanbarthol am uchelgais ac adferiad economaidd, o bosib i raddau mwy nag unrhyw CDLI arall yng ngogledd Cymru hyd yma. Gall hyn gyfrannu at y gofyniad buan i baratoi Cynllun Datblygu Strategol a fydd yn canolbwyntio ar ymdrin ag unrhyw anghydbwysedd mewn darpariaeth ledled gogledd Cymru.

Cwestiwn b)

O ran yr economi, beth yw nodweddion arbennig Sir y Fflint? Sut y byddant yn cael eu harneisio 'er budd nid yn unig Gogledd-ddwyrain Cymru, ond y ddaeryddiaeth ehangach, i'r dwyrain a'r gorllewin', fel y cynghorir yng Nghynllun Gofodol Cymru?

Ymateb y Cyngor:

- b.1 Yn economi Sir y Fflint ceir dibyniaeth gref ar weithgynhyrchu gwerth uchel o ansawdd uchel. Mae hyn i gyfrif am gyfran sylweddol uwch o swyddi a gwerth ychwanegol gros na chyfartaledd Cymru neu'r DU. Mae rôl Sir y Fflint fel canolfan gyflogaeth i'r is-ranbarth ehangach wedi sicrhau bod mantais y sector hon yn cael ei gwarchod a'i datblygu i greu cynnyrch o werth uchel, gan sicrhau bod gan sectorau penodol enw da a'u bod yn ddeniadol yn rhyngwladol, fel gweithgynhyrchu awyrofod a modurol. Mae hyn yn cyferbynnu â Gorllewin Swydd Gaer lle cafwyd twf llwyddiannus yn y sector gwasanaethau gwerth uchel, yn enwedig yn y sector ariannol. Mae hyn yn creu lefel o gyfatebolrwydd a chyd-ddibyniaeth is-ranbarthol sy'n nodweddu cyfran sylweddol o'r symudiadau teithio i'r gwaith i mewn ac allan o Sir y Fflint, gyda gweithwyr yn dod i swyddi gweithgynhyrchu a thrigolion yn cymudo allan i weithio yn y sector gwasanaethau ariannol hwn.
- b.2 Mae cryfder y sector uwchlaw pob sector arall a'i allu i greu cyfraniad o werth uchel at yr economi genedlaethol, ynghyd â lleoliad strategol Sir y Fflint rhwng gogledd Cymru a gogledd-orllewin Lloger yn golygu bod dylanwad Sir y Fflint yn aml-haenog yn nhermau daearyddiaeth a'r economi. Adlewyrchir hyn yn y pwyslais a roddir ar rôl a chyfraniad Sir y Fflint i'r is-ranbarth ym Margen Twf Gogledd Cymru, Cynllun Glannau Dyfrdwy, a Phrosbectws Ardal Mersi Dyfrdwy.
- b.3 Mae Cymru'r Dyfodol, sydd ar fin cael ei gyhoeddi ac sydd i bob pwrpas yn disodli Cynllun Gofodol Cymru, yn cadarnhau rôl a swyddogaeth economi Sir y Fflint a'i phwysigrwydd i ffyniant cenedlaethol, lle cydnabyddir Glannau Dyfrdwy a Wrecsam fel un o dair Ardal Dwf Genedlaethol, a fydd yn ffocws i benderfyniadau ynghylch buddsoddi yn y dyfodol.
- b.4 Y cyd-destun hwn sydd wedi dylanwadu ar gynnwys y strategaeth economaidd ar gyfer y CDLI, a'r rheswm ar ei chyfer.

Cwestiwn c)

Beth yw'r berthynas dros y ffin o ran cyflogaeth? Pa gyfran o'r swyddi presennol yn Sir y Fflint sydd wedi'u llenwi gan gyflogeion o'r tu allan i'r Sir? Faint o drigolion Sir y Fflint sy'n teithio i weithio y tu allan i'r Sir? Sut mae'r Cyngor wedi rhoi cyfrif am y symudiadau hynny yn ei ragolygon?

Ymateb y Cyngor:

- c.1 Mae Cynllun Cymru'r Dyfodol sydd ar ddod yn cydnabod bod "patrymau cymudo yn elfen nodedig o'n heconomiâu rhanbarthol, gyda chryn nifer o bobl yn teithio i'w gweithle bob dydd. Mae'r patrymau hyn yn adlewyrchu hierarchaethau rhanbarthol a chanolfannau cyflogaeth hirsefydlog, sydd wedi datblygu'n dda". Fel y crybwyllwyd yn yr ymateb i gwestiwn b) uchod, mae cryfder gweithgynhyrchu yn Sir y Fflint yn cyferbynnu â Gorllewin Swydd Gaer lle cafwyd twf llwyddiannus yn y sector gwasanaethau gwerth uchel, yn enwedig yn y sector ariannol. Mae hyn yn creu lefel o gyfatebolrwydd a chyd-ddibyniaeth is-ranbarthol sy'n nodweddu cyfran sylweddol o'r symudiadau teithio i'r gwaith i mewn ac allan o Sir y Fflint, gyda gweithwyr yn dod i

swyddi gweithgynhyrchu a thrigolion yn cymudo allan i weithio yn y sector gwasanaethau ariannol.

c.2 O ran symudiadau teithio i'r gwaith, mae 2011 yn cynnig dadansoddiad o batrymau teithio i'r gwaith a'r graddau y mae trigolion yn Sir y Fflint yn teithio i ardaloedd eraill, ynghyd â manylon faint o bobl sy'n cymudo i mewn i'r ardal. Roedd Cyfrifiad 2011 yn nodi patrymau teithio i'r gwaith 69,276 o unigolion (gan ddefnyddio'r manau gwaith gwirioneddol a nodwyd), ac o blith y rhain:

- Roedd 43,733 yn byw ac yn gweithio yn Sir y Fflint (gan gynnwys 6,697 sy'n gweithio gartref);
- Roedd 23,817 yn cymudo i weithio yn Sir y Fflint ond yn byw y tu allan i'r ardal: ac
- Roedd 25,543 yn byw yn Sir y Fflint ond yn cymudo allan o'r ardal i weithio.

c.3 Yn gyffredinol, roedd 63.1% o drigolion Sir y Fflint yn gweithio yn Sir y Fflint, 15.4% yn teithio yng Ngorllewin Swydd Gaer, 6.6% yn Wrecsam a 0.4% yn Swydd Amwythig.

c.4 Gan fod rhagolygon cyflogaeth yn seiliedig ar y graddau y bydd y lefel bresennol o gyflogaeth a ddarperir yn Sir y Fflint yn tyfu, mae tueddiadau sectoraidd yn dylanwadu mwy ar hyn na thueddiadau teithio i'r gwaith. Mae'r strategaeth dwf gyffredinol hefyd wedi'i seilio ar greu lefel o dwf yn y boblogaeth, ac felly'r gweithlu, sy'n uwch nag amcanestyniadau lefel isel Llywodraeth Cymru, a lle bydd lefel y tai a ddarperir yn annog elfen o fewnfudo i'r ardal. Ni fydd hyn o reidrwydd yn cynyddu'r cyfraddau sy'n teithio i'r gwaith, oherwydd mewn egwyddor dylai hyn gynyddu lefel yr annibyniaeth o fewn yr economi, a lleihau patrymau a phellteroedd cymudo.

Cwestiwn d)

Beth yw statws Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy? A yw'n glir pa bolisiau yn y CDLI fydd yn berthnasol i'r ardal hon, a sut y gwneir penderfyniadau ynghylch cynigion? A ddylid ei nodi ar Fap y Cynigion?

Ymateb y Cyngor:

d.1 Mae ffin Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy wedi'i dangos ar ddiagram ar wefan Llywodraeth Cymru <https://businesswales.gov.wales/enterprisezones/cy/ardaloedd-menter-yng-nghymru/glannau-dyfrdwy>. Esbonnir bod yr ardal yn cynnwys nifer o safleoedd strategol. Gellir rhannu'r safleoedd yn fras i'r ardaloedd daearyddol a ganlyn:

Ardal Ddaearyddol	Sut y'i nodwyd yn y CDLI Adneuo
Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy (gan gynnwys dyraniad Tata Steel a Phorth y Gogledd) i'r Gogledd o'r R. Dyfrdwy ac i'r gorllewin o'r A494(T)	Prif Ardal Gyflogaeth PE2.11 a STR3A
Hen safle siâp triongl DARA ar ochr ddwyreiniol yr A494(T)	Prif Ardal Gyflogaeth PE2.11

Datblygiad cyflogaeth rhwng ochr ddeheuol Afon Ddyfrdwy a'r B5129 yn Pentre a Sandycroft	Prif Ardaloedd Cyflogaeth PE2.21 / 22 / 27 / 28 / 29
Maes Awyr Penarlâg a datblygiad cyflogaeth sy'n cynnwys Parc Diwydiannol Penarlâg, Airbus a Stad Ddiwydiannol Broughton Mills, i'r gogledd o Frychdyn.	EM1.1 ac EM1.2 a Phrif Ardaloedd Cyflogaeth PE2.4 ac 16

d.2 Mae'r CDLI felly'n darparu ar gyfer datblygiad o fewn Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy drwy ddyrannu'r safleoedd allweddol ym mholisi STR3 neu PE1 neu nodi ardaloedd cyflogaeth presennol yn Brif Ardaloedd Cyflogaeth yn PE2.

d.3 Ar y wefan uchod, mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r 'rhesymau i leoli yng Nglannau Dyfrdwy', sef:

- Yr Amgylchedd Busnes - sgiliau ac academia / sectorau / pwy sydd yma yn barod / ansawdd bywyd
- Cefnogaeth a Chymhellion - cymhellion / cymorth ariannol gan Lywodraeth sydd o blaid busnes
- Seilwaith Parod i Fusnes - cysylltiadau trafniadaeth / band eang, diogelwch data a TGCh.

d.4 Yr unig rôl 'gynllunio' y gall Ardaloedd Menter eu cyflawni yw symleiddio cyfundrefnau cynllunio. Mae hyn yn rhywbeth a ystyriwyd ac a wrthodwyd gan y Cyngor. Mae hi'n amlwg felly mai budd yr Ardal Fenter yw'r 'cymhellion' a ddaw yn sgil y dynodiad yn hytrach nag unrhyw rôl neu swyddogaeth gynllunio.

d.5 Mae'r Ardal Fenter wedi'i mapio ar ffurf polygon parhaus yn hytrach na chyfres o bolygonau ar wahân, ac mae hyn wedi golygu cynnwys ardaloedd o gefn gwlad agored sydd rhwng y gwahanol safleoedd. Mae darnau mawr o gefn gwlad agored / rhwystr glas yn gwahanu'r safleoedd allweddol ac ardaloedd cyflogaeth presennol, a byddai'n amhriodol i fap cynigion y CDLI ddangos ffin ar gyfer yr Ardal Fenter, oherwydd gellid dehongli bod hynny'n cefnogi datblygiad cyflogaeth y tu hwnt i ddyraniadau ac ardaloedd cyflogaeth a ddynodwyd, a hynny'n gwbl groes i ddynodiadau polisi allweddol yn y Cynllun.

d.6 Er bod y mater o gyfeirio at Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy wedi'i drafod yn y sylwadau gan Adran Gynllunio Llywodraeth Cymru (id1150), nodwyd yn y sylwadau hynny '*Bydd hyn yn fater i'r Adran berthnasol yn Llywodraeth Cymru wneud sylw arno*'. Ni chafwyd unrhyw sylwadau o'r fath gan Adran Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol Llywodraeth Cymru. Ac ystyried hyn, ni ystyrir ei bod hi'n briodol nac yn angenrheidiol ailbennu ffin Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy a fap y cynigion.

Cwestiwn e)

Sut y bydd y CDLI yn cynnal ac yn gwella arlwy twristiaeth, diwylliant a hamdden y Sir?

Ymateb y Cyngor:

- e.1 Mae gan y Sir arlwy unigryw ac amrywiol i ymwelwyr, gyda'i threfi marchnad traddodiadol, Arfordir ac Aber Afon Dyfrdwy, yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, parciau gwledig ac ystod o atyniadau diwylliannol gan gynnwys Theatr Clwyd, Dyffryn Maes Glas, Ffynnon Gwenffrewi ymhlith eraill. Nid yw'r Cynllun yn ceisio nodi safleoedd neu ddyraniadau ar gyfer datblygiadau twristiaeth newydd gan ei bod hi'n anodd gwneud hynny, oherwydd natur y sector twristiaeth. Yn lle hynny, mae'n nodi'r egwyddorion strategol ym mholisi STR10 a gefnogir gan ganllawiau manylach ym mholisi PE12 Llety, Cyfleusterau ac Atyniadau Twristiaeth, PE13 Datblygiad Carafannau yng Nghefn Gwlad Agored a PE14 Dyffryn Maes Glas. Bwriad y fframwaith polisi hwn yw sicrhau bod pob datblygiad newydd yn briodol o ran ei leoliad, ei fath a'i faint.
- e.2 Yn nhermau'r defnydd o dir, nod y fframwaith polisi hwn yw cefnogi'r nodau bras ar gyfer twristiaeth ym Mholisi Cynllunio Cymru 11 sy'n canolbwyntio ar greu swyddi, adfywio a gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig, yn ogystal â iechyd a llesiant. Gall hefyd gefnogi a hyrwyddo nod y Cyngor o greu lleoedd o ansawdd uchel i ymweld â hwy ac aros ynddynt, i dreulio amser hamdden a gweithio, fel y mynegir yng [Nghynllun Strategol Rheoli Cyrchfan](#) y Cyngor.
- e.3 O ran polisi STR10 (id349 ac 802), tynnai'r sylwadau sylw at y ffaith nad oedd geiriad y polisi'n adlewyrchu teitl y polisi o ran diwylliant a hamdden. Yn ei ymateb, nododd y Cyngor nad oedd yn gwrthwynebu diwygio geiriad y polisi pe bai hynny'n addas, a chynigiodd y dylid aralleirio maen prawf i) fel a ganlyn 'Cefnogi datblygiad twristiaeth, **diwylliant a hamdden newydd ac** estynedig sydd....' ynghyd â mân newidiadau golygyddol i'r testun esboniadol.
- e.4 Mewn ymateb i sylwadau gan Gyfoeth Naturiol Cymru ynghylch polisi PE13 a PE14, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cytuno ar ddiwygiadau i eiriad y polisiâu a'r testun esboniadol fel bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn fodlon. Nodir y rhain yn Natganiad Tir Cyffredin CNC ([SOCC006](#)).

f) A yw'r asesiad o angen manwerthu nwyddau cymharol yn ddigon cadarn i arwain ymagwedd y Cynllun tuag at ddyrannu manwerthu?

- f.1 Mae'r Cyngor, yn ei ymateb i C29 Cwestiynau Rhagarweiniol yr Arolygydd, wedi darparu trosolwg o fanwerthu yn y Sir, gan gydnabod natur gyfnewidiol canolfannau manwerthu a chanfyddiadau'r Astudiaeth Fanwerthu. Yn erbyn y cyd-destun a'r dystiolaeth hon, eglurodd nad yw'r Cyngor yn ystyried ei bod yn briodol gwneud dyraniadau manwerthu nwyddau 'cymharol' yn y Cynllun ar sail:
- Nifer y canolfannau Tref ac Ardal
 - Profiad o ddyraniadau manwerthu bychan yn y CDU heb ddwyn ffrwyth
 - Dyraniad mewn un ganolfan yn rhwystro cynllun rhag dod ymlaen mewn canolfan arall
- f.2 Eglurodd yr ymateb ei bod yn synhwyrol gadael i gynlluniau addas a arweinir gan y farchnad ddod ymlaen, neu i gynlluniau ddod ymlaen o ganlyniad i gynlluniau gweithredu a strategaethau canol tref. Ystyrir yr ymagwedd hon yn un synhwyrol o

ystyried effeithiau Covid-19, yn dilyn cyfnod pan oedd manwerthu a chanolfannau manwerthu eisoes mewn trafferth. Mae'r Cyngor wedi sefydlu nifer o weithgorau fel rhan o'i Raglen Adfer Covid-19, ac mae un o'r Grwpiau, 'Lleoedd', yn cynnwys cynrychiolwyr ar draws y Cyngor cyfan, gan gynnwys y Polisi Cynllunio. Arweinir hwn gan Reolwr y Gwasanaeth Menter ac Adfywio, sydd wrthi'n chwilio am ffynonellau cyllid, mentrau, safleoedd a phrosiectau ar gyfer dechrau adfywio canolfannau manwerthu. Un fenter o'r fath yw'r syniad y gallai'r Cyngor brynu eiddo gwag a phroblemus mewn canolfannau manwerthu, er mwyn helpu i'w hadnewyddu a'u hail-ddefnyddio. Cymeradwywyd adroddiad cychwynol gan y Cabinet ym mis Mawrth 2020, ac mae'r gwaith hwn yn dal i fynd rhagddo.

- f.3 Barn un gwrthwynebwr yw nad yw ymagwedd y Cynllun tuag at ganol trefi yn ddigon rhagweithiol, ac y dylai polisiau fod yn fwy penodol a phenderfynol o ymrwymo i uwch-gynlluniau a chynlluniau gweithredu, gan ddefnyddio dulliau megis ei bwerau Gorchymyn Prynu Gorfodol i ymgasglu tir sy'n cynnwys adeiladau gwag. Fel yr eglurwyd uchod, mae gwaith ar fwrw ymlaen â'r mentrau hyn yn mynd rhagddo ar hyn o bryd, ond fod hyn yn cael ei wneud y tu allan i'r CDLI. Rôl y CDLI yw sefydlu fframwaith o bolisiau defnydd tir i'w defnyddio i weithredu ymagwedd 'canol trefi'n gyntaf' Llywodraeth Cymru. Mae'r Cynllun eisoes wedi cydnabod rôl a chyfansoddiad cyfnewidiol canol trefi drwy fabwysiadu dull mwy ymarferol o fynd i'r afael â chynigion nad ydynt yn rhai manwerthu yn y Prif Ardaloedd Siopa (PE8). Ni ystyrir mai CDLI sy'n gymwys am gyfnod o 15 mlynedd yw'r ffordd fwyaf priodol nac effeithiol o sefydlu strategaethau ymyrryd o'r fath. Mae pandemig Covid-19 wedi dangos yr angen am ymateb cyflym i adferiad economaidd, a gall hyn weithio law yn llaw â'r polisiau yn y CDLI. Mae yna gyfeiriad amlwg yn nhrydydd paragraff Polisi STR9 at y rôl y dylai gwiriadau sefyllfa, uwch-gynlluniau a chynlluniau gweithredu ei chwarae, ac ystyrir fod hyn yn ddigonol.
- f.4 Paratowyd Astudiaeth Manwerthu'r Cyngor [LDP-EBD-RET1](#) gan ymgynghorwyr arbenigol profiadol, ac mae'n cynnwys asesiad o anghenion arwynebedd llawr manwerthu drwy'r Sir, a sylwebaeth am berfformiad pob canolfan siopa tref ac ardal, yn ogystal â Pharc Siopa Brychdyn. Casglodd yr Astudiaeth nad oedd unrhyw angen am arwynebedd llawr cyfleusterau dros gyfnod y Cynllun, ond bod yna angen bychan am arwynebedd llawr nwyddau cymharol. Wrth ymateb i'r sylwadau, derbyniodd y Cyngor fod un o'r ymrwymadau manwerthu ym Mharc Manwerthu Saltney wedi dod i ben, a bod hyn yn cynyddu'r cyfle am ddatblygiad manwerthu nwyddau cymharol dros gyfnod y Cynllun. Mae'r Astudiaeth Manwerthu yn nodi'r canlynol ym mharagraff 6.6: *'Dylai'r Cyngor fonitro nifer o ddangosyddion allweddol eraill i bennu newidiadau tebygol i ofynion am arwynebedd llawr manwerthu dros gyfnod y cynllun datblygu...'*, ac mae'r pwynt bwled cyntaf yn nodi: *'Gweithredu ymrwymadau manwerthu presennol. Bydd ymrwymadau sydd heb eu gweithredu neu ganiatâd cynllunio presennol sy'n dod i ben yn rhyddhau cyfleoedd ychwanegol'*. Yn amlwg, mae mwy o gyfle bellach am ddatblygiad manwerthu nwyddau cymharol dros gyfnod y Cynllun. Er hynny, ni ystyrir ei bod yn berthnasol o hyd gwneud dyraniadau yn y Cynllun, o ystyried y cyd-destun a nodwyd yn gynharach.